

**HUFENFA DE ARFON CYF.  
POLISI GWRTH GAETHWASIAETH A MASNACHU POBL**

**Datganiad Polisi**

Mae caethwasiaeth modern yn ganlyniad i droseddau ffaidd ar hawliau dynol gweithwyr bregus. Gall fod yn amrywiaeth o bethau fel caethwasiaeth, caethwasanaeth, llafur gorfodol a masnachu pobl. Agwedd Hufenfa De Arfon Cyf tuag at gaethwasiaeth fodern yw i 'oddef dim' ac mae wedi ymrwymo i ymddwyn yn foesol, yn onest ac yn drylowy wrth wneud busnes a chyda'i chysylltiadau, ac i weithredu a gorfodi systemau a rheoli i sicrhau nad yw caethwasiaeth fodern na masnachu pobl yn digwydd unrhyw le o fewn ei busnes ei hun nac unrhyw un o'i rhwydweithiau cyflenwi, yn unol â'i rhwymedigaeth o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae'r Cwmni hefyd yn disgwyl yr un safonau gan ei chyflenwyr, contractwyr a phartneriaid busnes eraill gyd. Fel rhan o'i phrosesau contractio, mae'n cynnwys gwaharddiadau penodol yn erbyn caethwasiaeth fodern, ac yn disgwyl y bydd ei chyflenwyr yn cadw at yr un safonau gyda'u cyflenwyr eu hunain.

Gall adnabod dioddefwyr sy'n debygol o oddef caethwasiaeth fodern fod yn anodd oherwydd gall y drosedd amlygu ei hun mewn nifer o ffyrdd. Nid yw'r sbectrwm o gam-drin bob amser yn glir nag ar ba bwynt, er enghraifft, mae ymarferion gwaith gwael a diffyg ymwybyddiaeth iechyd a diogelwch wedi mynd yn achos o fasnachu pobl, caethwasiaeth neu lafur gorfodol yn yr amgylchedd gwaith. Yn ychwanegol, efallai y gwnaiff rhai cyflenwyr fynd i drafferth fawr i guddio'r ffaith eu bod yn defnyddio caethwasanaeth. Fodd bynnag mae'r Cwmni yn derbyn cyfrifoldeb drwy ei phroses diwydrwydd ei hun i sicrhau nad yw gweithwyr yn cael eu hecsbloetio ac eu bod yn ddiogel, a bod deddfau a safonau cyflogaeth, iechyd a diogelwch a hawliau dynol perthnasol yn cael eu dilyn, yn cynnwys rhyddid symudiadau a chyfathrebu.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob unigolyn sy'n gweithio i'r Cwmni, neu ar ran y Cwmni mewn unrhyw ffordd, yn cynnwys gweithwyr cyflogedig, Cyfarwyddwyr, swyddogion, gweithwyr asiant, gwirfoddolwyr, asiantaethau, contractwyr, ymgynghorwyr a phartneriaid busnes.

**Cyfrifoldeb am y Polisi**

Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod y polisi hwn yn cydymffurfio gyda rhwymedigaethau cyfreithiol a moesol y Cwmni.

Y Rheolwr Cydymffurfio sy'n gyfrifol am weithredu'r polisi o ddydd i ddydd, monitro ei ddefnydd a'i effeithlonrwydd a systemau archwilio/rheoli mewnol a pholisïau a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn effeithiol i atal neu wella'r peryglon o gaethwasiaeth fodern. Maent hefyd yn gyfrifol am ymchwilio i honiadau o gaethwasiaeth fodern ym musnes y Cwmni neu rwydweithiau cyflenwi.

**Cydymffurfiaeth**

Mae atal, datgelu ac adrodd am gaethwasiaeth fodern yn unrhyw ran o fusnes y Cwmni neu rwydweithiau cyflenwi, boed o ym Mhrydain neu dros mor, yn gyfrifoldeb ar pob un sy'n gweithio i'r Cwmni neu o dan reolaeth y Cwmni.

Mae'n rhaid i bolisi o ddim goddef caethwasiaeth fodern y Cwmni gael ei gyfathrebu i bob cyflenwr, contractwr a phartneriaid busnes eraill wrth ddechrau neu yn adnewyddu cytundebau gyda hwy.

Dim ond asiantaethau recriwtio penodol a chyfrifol a ddefnyddir i geisio gweithwyr dros dro. Mae'r asiantaethau yn atebol i archwiliadau rheolaidd a gwneir gwiriadau cofrestru parhaus yn unol ag Awdurdod Trwyddedu *Gangmasters*.

Mae ein safle wedi cael ei gofrestru gyda SEDEX, basdata rhwydwaith cyflenwi moesol, ac mae hwn yn cael ei ddiweddar'u'n flynyddol.

**Torri'r Polisi**

Mae Hufenfa De Arfon Cyf yn gwerthfawrogi a pharchu cyfathrebu gonest ac agored, ac mae cyfranddalwyr i gyda â'r cyfle i godi cwestiynau a/neu bryderon trwy: [mail@sccwales.co.uk](mailto:mail@sccwales.co.uk)

Mae ein Polisi Cyhuddo hefyd yn darparu cyfle pellach i weithwyr cyflogedig adrodd am wybodaeth am anghysonderau posib.

Mae ein hegwyddorion o ran ymateb i gaethwasiaeth fodern ym Mhrydain ac yn fyd eang yn cynnwys:

- Prosesau gwirio data mewnol cadarn ym Mhrydain. Mae hyn yn cynnwys gwirio manylion banc gweithwyr a chyfeiriadau i ddynodi peryglon.
- Gwella sgiliau ein harweinwyr a chydweithwyr yn yr ardal hon ac mae ein safleoedd ym Mhrydain i gyd wedi ymrwymo i ddod yn Bartneriaid Busnes Cryfach gyda'n Gilydd.
- Gall y Cwmni derfynu ei pherthynas masnachol gyda chyflenwyr, contractwyr a phartneriaid busnes eraill os ydynt yn torri'r polisi hwn a/neu os darganfyddir eu bod yn ymwneud â chaethwasiaeth fodern.

### **Polisi Gwrthlwgrwobrwo a Llygredd**

Rydym yn condemnio unrhyw lwgrwobrwo neu lygredd. Nid yw ymddygiad llygredig yn gydnaws â sut ydym yn gweithredu busnes ac mae yn erbyn ein polisi cydymffurfiaeth busnes. Mae'r polisi hwn yn diffinio'r fframwaith ac yn darparu arweiniad ar sut i ymddwyn yn briodol.

### **Camau Pellach**

Fel busnes byddwn yn:

- Parhau i ddilyn ein prosesau dichonolrwydd i fonitro ein bod yn cydymffurfio yn erbyn chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl;
- Monitro, adrodd am ac ymateb i unrhyw broblemau a ddarganfyddir gan y busnes a chymryd y camau priodol i gyrraedd ein safonau uchel ein hunain ar gyfer cydymffurfiaeth ac ein rhwymedigaethau statudol;
- Parhau i addysgu ein gweithwyr i gyd o fewn y busnes am ein hymrwymiad i ddileu caethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn ei rhwydweithiau cyflenwi trwy ddarparu cefnogaeth barhaus a hyfforddiant lle bo'n addas;
- Edrych ar y defnydd o'n hyfforddiant moesol mewnol i gefnogi ac addysgu ein cyflenwyr yn yr ardal; a
- Lansio a chyfathrebu strategaeth ddiwygiedig ar gyfer busnes hyfyw yn cynnwys ymrwymiad i fwy o ffynonellu cyfrifol, cyfathrebu gyda'n pobl a thaclo caethwasiaeth fodern.